# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 24 MAI 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | S J Bletsoe | RJ Collins |
| S Easterbrook | H Griffiths | P W Jenkins | MJ Kearn |
| J E Pratt | R J Smith | R Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RM James a/ac J Llewellyn-Hopkins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Katie Wintle | Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

## 5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

## 6. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 ar 25 Mai 2022 yn cael ei gymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

## 7. DEDDF TRWYDDEDU 2003 A DEDDF HAPCHWARAE 2005 DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu adroddiad yn nodi'r trefniadau arfaethedig ar gyfer awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Hapchwarae 2005 ac yn cadarnhau trefniadau ar gyfer ffurfio is-bwyllgorau yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2023.

Eglurodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu er budd perfformiad effeithiol y bwriedid dirprwyo'r cyfrifoldeb am awdurdodi swyddogion i weinyddu gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Hapchwarae 2005, i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol ac i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol gychwyn achos o dan y Deddfau hynny. Eglurodd y cynigiwyd hefyd, lle bo'n briodol, bod y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, y Rheolwr Tîm Trwyddedu (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morgannwg), yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol), awdurdodi Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu a Swyddog Polisi Trwyddedu i gydnabod a chyhoeddi Hysbysiadau yn ymwneud â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro; rhoi, gwrthod, atal trwyddedau, cofrestriadau, tystysgrifau, hawlenni a hysbysiadau, gweithredu'r darpariaethau perthnasol mewn perthynas â throseddau, adolygiadau neu ofynion eraill; yn unol ag unrhyw un o’r rheolau, rheoliadau a/neu Orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Hapchwarae 2005 (fel y’i diwygiwyd).

Eglurodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu y gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd gymeradwyo'r trefniant presennol o ffurfio Is-bwyllgorau pellach sy'n cynnwys tri Aelod o Bwyllgor

Deddf Trwyddedu 2003 i benderfynu ar geisiadau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Cynigiwyd y byddai Is-bwyllgorau Deddf Trwyddedu 2003 yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 lle bo hynny'n bosibl. Pe na bai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn gallu bod yn bresennol, byddai cadeirydd yn cael ei ethol.

PENDERFYNWYD: Defnyddiodd y Pwyllgor ei awdurdod dirprwyedig ac:

1. Awdurdodi'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i gychwyn achos o dan y Deddfau a grybwyllir uchod.

2. Awdurdodi'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, y Rheolwr Tîm Trwyddedu (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bro Morgannwg), yr Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol), yr Uwch Swyddog Gorfodi Trwyddedu, a'r Swyddog Polisi Trwyddedu cydnabod a chyhoeddi Hysbysiadau yn ymwneud â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro; rhoi, gwrthod, atal trwyddedau, cofrestriadau, tystysgrifau, hawlenni a hysbysiadau, gweithredu'r darpariaethau perthnasol mewn perthynas â throseddau, adolygiadau neu ofynion eraill; yn unol ag unrhyw un o'r rheolau, rheoliadau a/neu Orchmynion a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Hapchwarae 2005 (fel y'i diwygiwyd).

3. Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer ffurfio Is-bwyllgorau a nodir ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad.

8. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 10:15